## LLYWODRAETH LEOL A PHWYLLGOR TAI

## ARCHWILIO'R CYNGOR AR DAI – YSTYRIED YR ADRODDIAD

### PWRPAS

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad yr archwiliad o'r gwasanaethau cynghori ar dai. Ceir copi o grynodeb o'r adroddiad yn Atodiad 1.

### ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad cyn ei anfon allan ar gyfer ymgynghori.

### AMSERU

3. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad at ddiben ymgynghori ym mis Medi 2001, ond bydd hynny'n dibynnu ar ystyried ymateb y Pwyllgor i'r adroddiad, a'i gyfieithu a'i argraffu.

### CEFNDIR

4. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Bob Widdowson, ymgynghorwr allanol â chryn brofiad o'r maes cynghori ar dai. Comisiynwyd y prosiect gan y Cynulliad i fesur lefel a safon y gwasanaethau cynghori ar dai yng Nghymru, ac i wneud argymhellion ar sut y gellid gwella'r gwasanaethau hyn a'u gwneud yn fwy hygyrch i'r sawl sydd ag angen cyngor arnynt ar ystod o faterion ynghylch tai. Nod yr adroddiad yw hysbysu adran datblygu polisi'r Cynulliad am y gwasanaethau cynghori ar dai a ddarperir, a'r safonau y dylid eu pennu ar gyfer y gwasanaethau hyn.
5. Bydd yr adroddiad o ddiddordeb arbennig i'r sefydliadau hynny sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cynghori ar dai, gan gynnwys awdurdodau lleol sydd â dyletswydd statudol i sicrhau bod cyngor ar gael i'r di-gartref, a chyrff megis Shelter sy'n darparu cyngor annibynnol ynghylch tai. Bydd hefyd o fudd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC), sydd â chyfrifoldeb statudol am hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori annibynnol yng Nghymru a Lloegr dan y Ddeddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999, ac sydd wrthi ar hyn o bryd yn ehangu gwasanaethau cynghori ar dai yng Nghymru.

**YSTYRIAETH**

6. Mae prif gasgliadau'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae cryn amrywiaeth o ran y gwasanaethau cynghori ar dai sydd ar gael. Mewn llawer ardal mae'r gwasanaethau ond ar gael am gyfran o'r wythnos, a hynny yn y prif drefi yn unig.
- Mae safon y cyngor yn amrywio, ac yn anodd ei fesur am nad yw'n cael ei gofnodi na'i asesu yn aml, ac mae'r drefn ar gyfer clywed ymateb y defnyddiwr yn annigonol.
- Mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym o ganlyniad i'r Ddeddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999, gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn ariannu gwasanaethau annibynnol newydd dros y rhan fwyaf o Gymru o 2001 ymlaen.
- Y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cynghori ar dai i'r digartref, ond rhaid sicrhau bod cyngor annibynnol ar gael hefyd. Dylai'r gwasanaethau cynghori lleol bellach weithio yng nghyd-destun aml-asiantaeth lleol Partneriaethau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol.
- Hyd yn oed wedi sefydlu'r gwasanaethau a ariennir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, bydd yna fylchau sylweddol yn y gwasanaethau cynghori a diffygion yn yr ariannu, yn enwedig o ran y bobl nad oes ganddynt hawl i'r gwasanaethau a ariennir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol oherwydd eu hincwm, pobl mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth a'r gwasanaethau yn anghysbell, a phobl ag angen cyngor arbenigol arnynt.

1. Yr argymhellion allweddol yw:

- Cynigir diffiniad a nod ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori ar dai, sy'n cynnwys yr amcan i sicrhau bod cyngor addas, rhad a di-duedd ar gael i bawb.
- Dylid mabwysiadu safon y Marc Ansawdd a osodwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fel y safon briodol ar gyfer gwasanaethau cynghori ar dai yng Nghymru. Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r corff priodol i archwilio'r gwasanaethau hyn.
- Dylai awdurdodau lleol adolygu'r ddarpariaeth yn eu hardal o bryd i'w gilydd, a sefydlu strategaeth i enwi'r anghenion.
- Mae angen arian ychwanegol sylweddol i gynnal datblygiad y gwasanaethau i sicrhau bod pawb yn medru cael y cyngor sydd ei angen arnynt.
- Mae yna angen am sefydliad arbennig i lywio datblygiad y gwasanaethau newydd. Gallai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol arwain hwn, drwy weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad. Dewis arall fyddai i sefydliad newydd ymgymryd â'r gwaith, ac anogir y Cynulliad i ystyried rhinweddau 'Homepoint' yn yr Alban yn y cyswllt hwn.

**CYDYMFFURFIO**

8. O dan Adran 182 Deddf Tai 1996, gall y Cynulliad roi arweiniad i awdurdodau lleol ar gyflawni eu cyfrifoldebau am y digartref, gan gynnwys cynghori ar dai. Mae'r pwerau perthnasol o dan Ddeddf Tai 1996 wedi'u trosglwyddo i Weinidog y Cynulliad.
9. Nid oes yna faterion o uniondeb na phrioldeb.
10. Anfonwyd copïau o'r cyflwyniad hwn i Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

11. Awdurdodau lleol:

    Dim ar hyn o bryd. Anfonir sylwadau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r sefydliadau statudol a gwirfoddol perthnasol i'w trafod cyn i'r Cynulliad wneud unrhyw benderfyniadau ar bolisi.

12. Cynulliad:

    Mae'r goblygiadau ariannol i'r Cynulliad o ran cyfieithu ac argraffu'r ddogfen ac yn y broses o ymgynghori. Telir am y rhain gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr Tai. Bydd yn rhaid ystyried ymhellach unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r gwaith o gyflawni'r argymhellion.

**THEMÂU TRAWSBYNCIOL**

13. Lluniwyd manyleb yr archwiliad hwn i ystyried yr angen i fynd i'r afael ag anfantais a hyrwyddo cydraddoldeb gan sicrhau bod cyngor ar dai ar gael i bawb. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r bwriadau hyn, ac fe fydd yn helpu i sicrhau bod pobl mewn angen yn gallu cael hyd i dai addas a'u cynnal, a chael eu hawliau a dewis o dai.

**Cangen Rheoli Tai, Digartrefedd a Chymorth**

**Cyfarwyddiaeth Tai**

**Gorffennaf 2001**